## COFNODION

**Dyddiad:** 20 Tachwedd 2002

**Amser:** 9.00 - 12.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| **Aelodau** | Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)<br><br>Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)<br><br>Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)<br><br>Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)<br><br>Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)<br><br>Alison Halford (Llafur, Delyn)<br><br>Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)<br><br>Glyn Davies (Ceidwadwyr, Canolbarth a Gorllewin Cymru) |
| **Swyddogion** | Margaret Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)<br><br>Arthur Emyr (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)<br><br>Gwilym Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon) |
| **Ysgrifenyddiaeth** | Julia Annand, Clerc y Pwyllgor |
| | |

**9.00am tan 9.10am**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd).

1.3 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddatganiadau o fuddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.

Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Mae Rhodri Glyn Thomas yn aelod o Bwyllgor cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008 ac yn aelod o Gwmni Theatr Hijinx.

- Mae Dafydd Wigley yn derbyn nawdd gan Gyngor Llyfrau Cymru ac mae ei wraig yn aelod blaenllaw o'r gymuned gelfyddydol. Mae hefyd yn aelod o Gwmni Theatr Hijinx.

- Datganodd Lorraine Barrett y buddiannau fel y'u rhestrir yn Rhestr Swyddogol Buddiannau'r Aelodau.

**9.10am tan 10.20am**

**Eitem 2: Adolygiad Polisi ar Chwaraeon**

**CC 17-02(p.1a)**

**Pwnc 1 Cyflwyniad gan Nigel Walker: Pennaeth yr Adran Chwaraeon: BBC Cymru**

2.1 Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Y pwynt pwysicaf oedd y dylai pobl deimlo y gallent gymryd rhan mewn unrhyw fath o chwaraeon o'u dewis.
- Roedd angen buddsoddi mewn cyfleusterau ar y lefel fwyaf sylfaenol ac ar y lefel uchaf un.
- Roedd cost refeniw buddsoddiadau cyfalaf ar raddfa fawr yn faich sylweddol i'w ysgwyddo. Roedd llwyddiant ar lefel ryngwladol, megis mewn rygbi, yn "ffenest siop" i chwaraeon a dylid ei drin felly.
- Roedd angen i Gyngor Gemau'r Gymanwlad wella'r trefniadau ar gyfer codi arian a'r drefn ar gyfer helpu athletwyr i gystadlu. Dylai'r Cyngor fod yn paratoi eisoes ar gyfer y Gemau nesaf yn Melbourne.

2.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y sesiwn holi ac ateb:

- Roedd nifer o ffactorau a oedd yn rhwystro pobl rhag llwyddo mewn chwaraeon. Roedd y problemau yn dechrau yn yr ysgol pan nad oedd athrawon yn cefnogi chwaraewyr dawnus. Ar hyn o bryd, yn ôl pob golwg, roedd lle roedd plentyn yn mynd i'r ysgol yn effeithio ar ei obaith o lwyddo ym maes chwaraeon.
- Roedd cynnal gweithgareddau ar ôl ysgol yn rhan bwysig o hyfforddi athletwyr dawnus. Yn aml, nid oedd rhieni'n dangos diddordeb ac felly, byddai llawer o athletwyr addawol yn colli cyfle oni bai iddynt gael cefnogaeth gan eu hathrawon.
- Roedd Addysg Gorfforol yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol, yn arbennig yn achos merched, gan fod yn rhaid eu hargyhoeddi fod cymryd rhan mewn chwaraeon yn beth normal i'w wneud. Roedd rhoi pwys ar chwaraeon yn yr ysgolion yn sicrhau nad oedd merched yn rhoi'r gorau i gymryd rhan ynddynt yn rhy fuan. Fodd bynnag, roedd yn rhaid cadw cydbwysedd rhwng pwysigrwydd chwaraeon ac astudiaethau eraill.
- Roedd cystadleuaeth a hyfforddiant yn holl-bwysig er mwyn meithrin athletwyr a allai fod yn bencampwyr. Roedd hefyd yn bwysig bod clybiau'n rhoi cefnogaeth a hyfforddiant ychwanegol iddynt. Roedd grantiau gan Sefydliad Sportaid yn cydnabod gallu ac yn rhoi hwb mawr i athletwyr ifanc.
- Roedd Cymru'n llusgo y tu ôl i Loegr a'r UD o ran rhoi cefnogaeth a chydnabyddiaeth ariannol i athletwyr ifanc ac roedd angen gwneud llawer mwy i wella'r sefyllfa.

- Codwyd cwestiwn ynghylch pryd y dylid annog pobl ifanc i hyfforddi o ddifrif. Er y gall rhoi hyfforddiant arbenigol i blant ifanc fod yn fanteisiol iddynt, dylid hybu chwaraeon fel ffordd o roi mwynhad i blant ifanc.
- Roedd angen newid trefniadaeth Cyngor Gemau'r Gymanwlad yn llwyr. Y farn oedd y dylid ei redeg fel corff proffesiynol, fel sy'n digwydd yng ngwledydd eraill y DU, yn hytrach nag fel cymdeithas amatur fel sy'n digwydd yng Nghymru. Nid oedd mudiadau amatur yn meddu ar gymaint o wybodaeth â chyrff proffesiynol, ac roedd hynny'n ei gwneud yn anodd iddynt ddewis timau. Yn aml, roedd gweithgareddau megis codi arian yn dechrau'n rhy hwyr i fod yn effeithiol. Roedd yn rhaid mynd ati i foderneiddio Cyngor Chwaraeon Cymru. Teimlwyd y byddai ymdrechion i newid y Cyngor yn cael mwy o ddylanwad pe byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi pwysau arno i wneud hynny.
- Roedd gan y cyfryngau rôl bwysig o ran creu enghreifftiau i blant ifanc eu hefelychu a dylid eu hannog i roi mwy o sylw i ferched sy'n llwyddo mewn chwaraeon.
- O ran ymyrraeth gan y llywodraeth ym maes chwaraeon, mewn ambell i sefyllfa, dylid cynnig cyngor a chefnogaeth i gyrff sy'n cael problemau. Gallai Undeb Rygbi Cymru, er enghraifft, elwa o gael cyngor i'w helpu i ostwng ei ddyled o £60 miliwn. Pe byddai Lloegr yn gwneud cais i gynnal cystadleuaeth nesaf Cwpan Rygbi'r Byd yn 2007, byddai angen i Gymru geisio sicrhau bod un o gêmau'r rownd gyn-derfynol yn cael ei chynnal yma er mwyn cadw proffil y gêm.

**Pwnc 2 Cyflwyniad gan Ranbarth Cymru o Gyngor Chwaraeon Prydain i'r Byddar**

**Cyflwynwyr: Glyn Rosser (Cadeirydd) and Dennis Harris (Llywydd)**

3. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Byth ers sefydlu'r Cyngor hwn ym 1930, gwirfoddolwyr sy'n ei redeg er mwyn trefnu gweithgareddau ar gyfer pobl fyddar.
- Ni ddylid gwrthod yr hawl i gystadleuwyr byddar gymryd rhan mewn chwaraeon oherwydd bod

ganddynt nam ar eu clyw. Fodd bynnag, roedd diffyg arian yn rhwystr. Er enghraifft, gorfu i bob cystadleuydd dalu £750 o gostau teithio er mwyn cynrychioli Prydain yn y Gemau Rhyngwladol diwethaf i'r Byddar yn Rhufain. Anfonodd y Cyngor dîm o 85 i'r Gemau a chafodd gymorth ariannol gwerth £60,000.

- Yn sgil cau ysgolion preswyl i'r byddar, bu'n fwy anodd dod o hyd i athletwyr byddar a'u dethol o'r herwydd.

- Roedd y corff ar lefel y DU gyfan yn derbyn £42,000 y flwyddyn. Ym mis Rhagfyr 2002, ni fyddai Cyngor Chwaraeon Prydain i'r Byddar yn cael mwy o arian. Oni bai y gellir pwyso ar UK Sports i barhau i gyllido'r Cyngor, bydd yn dirwyn i ben.
- Ym marn y Cyngor, nid oedd yn briodol iddo integreiddio â'r Gymdeithas Paraolympig, gan y byddai'n colli ei hunaniaeth. Roedd UK Sports wedi beirniadu'r Cyngor am beidio gwneud mwy i integreiddio â chwaraewyr sy'n clywed, ond nid ystyriwyd bod hynny'n ymarferol gan fod chwaraewyr sydd â nam clywed yn dibynnu ar ddehonglwyr i'w helpu i gymryd rhan mewn chwaraeon.

2.4 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn cwestiwn ac ateb:

- Roedd plant byddar yn cael llai o gyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon gan eu bod bellach yn mynd i ysgolion y brif ffrwd. Roedd hyfforddiant ychwanegol mewn pynciau eraill yn digwydd yn aml yn ystod y gwersi chwaraeon arferol ac roedd plant byddar yn colli'r cyfle i gymryd rhan ynddynt. Byddai rhoi pwyslais ar annog plant sy'n rhagori mewn chwaraeon yn tueddu i roi plant byddar dan anfantais.

- Nid oedd unrhyw beth i rwystro pobl fyddar rhag defnyddio cyfleusterau megis canolfannau hamdden sy'n cael eu defnyddio gan y bobl sy'n gallu clywed. Fodd bynnag, roedd pobl fyddar yn fwy tebygol o ddefnyddio cyfleusterau os oeddent yn cael croeso ac fel arfer roedd angen i berson sy'n gallu clywed ddod gyda hwy. Yn Ne Cymru roedd yna 6 neu 7 clwb chwaraeon i'r byddar a oedd yn gysylltiedig â changen Cymru o'r Cyngor sy'n ceisio annog plant i gymryd rhan mewn chwaraeon.

- UK Sports sy'n ariannu'r Grwp Strategaeth Chwaraeon i'r Byddar ac roedd y Cyngor yn teimlo'i fod mewn sefyllfa llai manteisiol na'r Grwp o ran cael cymorth ariannol.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Dylid gofyn i Gyngor Chwaraeon Cymru ymdrin yn uniongyrchol â'r pwyntiau a wnaed yn y cyflwyniad gan Gyngor Chwaraeon Prydain i'r Byddar pan fyddant yn gwneud eu cyflwyniad ger bron y Pwyllgor ar 16 Ionawr 2003.

**<u>10.20am tan 10.30am</u>**

**Eitem 3: Blaenraglen Waith**

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y flaenraglen waith yn unol â CC 18-02 p2. Byddai'r Adolygiad o Chwaraeon

yn parhau tan fis Mawrth 2003.

**10.30am tan 10.45am**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 15 munud

**10.45am tan 11.30am**

**Eitem : 4 Cyngor Celfyddydau Cymru (Dosbarthu Arian i'r Rhanbarthau)**

**Cyflwynwyr: Peter Tyndall, Prif Weithredwr a Francis Medley, Cadeirydd**

1. Gwnaeth Peter Tyndall gyflwyniad i'r Pwyllgor am flaenoriaethau cynllun Corfforaethol Cyngor y Celfyddydau. Yn eu plith roedd:

- Hyrwyddo drama a dawns yn y brif ffrwd ac yn y gymuned;
- ariannu'r newidiadau y mae angen eu gwneud i leoliadau er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf newydd yn ymwneud â Gwahaniaethu ar sail Anabledd;
- parhau i gyllido prosiectau cyfalaf mawr.

1. Eglurodd Mr Tyndall fod mentrau pwysig eraill yn cynnwys:

- dod o hyd i nawdd masnachol ar gyfer y cynllun "Collectorplan" llwyddiannus;
- cymryd rhan weithredol yng nghais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008;
- gwella sefydlogrwydd economaidd prosiectau celfyddydol yng Nghymru;
- gweithio gyda'r gostyngiad a ragwelir yn arian y loteri yn sgil gostyngiad yn nifer y tocynnau sy'n cael eu gwerthu
- gwneud cais am fwy o arian y loteri o ystyried bod y gyfradd yn cael ei phennu ar sail y pen ar hyn o bryd.

4.3 Aeth Mr Tyndall ymlaen i egluro'r canlynol:

- Ar hyn o bryd, roedd gwerth £23 miliwn o prosiectau cyfalaf ar y gweill o'u cymharu â'r £29 miliwn a ragamcanwyd yn y gyllideb.

- Prif amcan y Cyngor oedd hybu rôl y celfyddydau yn y gymuned ehangach a sicrhau bod pobl sy'n byw yng Nghymru o fewn cyrraedd i leoliad sy'n ymwneud â'r celfyddydau.

- Roedd y Cyngor yn gwneud yr hyn a allai i leihau'r "ardaloedd oer" o ran cael eu hariannu sydd yng Nghymru. Ym Merthyr Tudful, er enghraifft, roedd cynlluniau ar y gweill i ariannu canolfan gelfyddydol. Roedd yna gynlluniau hefyd i sefydlu oriel gelf yn Sir Benfro.

- Roedd cyflogi Swyddogion y Celfyddydau ym mhob un o'r Awdurdod Lleol yn enghraifft o gynllun grant pwysig. Y nod oedd gosod sylfaen gynaliadwy i'r celfyddydau drwy annog yr Awdurdodau

Lleol i ddatblygu strategaethau diwylliant a fforymau'n ymwneud â'r celfyddydau.

- Roedd y Cyngor yn dechrau mynd ati i ddadansoddi lle roedd yr arian grant yn cael ei wario ledled Cymru. Roedd cyfran helaeth wedi mynd at ariannu canolfannau'r celfyddydau, a oedd yn cynnwys ffurfiau amlgelfyddydol.

4.4 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb:

- Roedd Cyngor y Celfyddydau yn cadw mewn cysylltiad â Chanolfan Ewropeaidd Cymru ym Mrwsel er mwyn achub ar gyfleoedd i gael arian o Ewrop, cyfle na fanteisiwyd arni cyn hyn.
- Roedd Cyngor y Celfyddydau'n ariannu cynlluniau'n ymwneud â cherddoriaeth, gan roi cymorth i gerddorion amatur a phroffesiynol. Er bod cyfloedd ar gyfer pobl ifanc, roedd y Cyngor yn awyddus i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. Roedd pobl yn gadael Cymru er mwyn bod o fewn cyrraedd i stiwdios, cyfreithwyr hawlfraint ac ati ac roedd y Cyngor am geisio sicrhau y gallai bandiau Cymreig aros yng Nghymru.
- Roedd y Cyngor wedi gofyn i gyrff sydd am dderbyn arian baratoi achos i gefnogi'u cais. Byddai'n amhosibl ariannu pawb sy'n gwneud cais ond byddai'n rhoi ystyriaeth i bob cais. Roedd system agored, wrthrychol a thryloyw ar waith ar gyfer didoli ceisiadau am arian.
- Roedd Canolfan y Mileniwm yn rhan o amrywiaeth o brosiectau ym mhob rhan o Gymru. Diolch i ymrwymiad y Gweinidog i'r celfyddydau y tu allan i Gaerdydd, byddai modd cadw cydbwysedd rhwng Caerdydd a gweddill Cymru.
- Effaith fwyaf y gostyngiad yn arian y loteri fyddai pa mor gyflym y gallai prosiectau yng Nghymru symud yn eu blaenau. Gallai hyn effeithio ar yr amrywiaeth gyfan o brosiectau sy'n cael eu hariannu.
- Cynhelid cynadleddau marchnata'n flynyddol ledled Cymru i godi proffil y celfyddydau.
- Roedd Cyngor y Celfyddydau'n awyddus i godi proffil y theatr yn y de orllewin. Y gobaith oedd y byddai Theatr Genedlaethol Gymraeg yn codi proffil y theatr yng Nghymru yn gyffredinol.

**11.30am tan 12.00pm**

**Eitem 5: Adroddiad y Gweinidog**

5.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad misol a thynnodd sylw'r pwyllgor at y pwyntiau canlynol:

- Bellach byddai Rali Network Q yn cael ei galw'n Rali Prydain Cymru. Awdurdod Datblygu Cymru a oedd yn ei hariannu ac roedd yn ddigwyddiad a oedd yn cael nawdd ardderchog, yn rhoi gwerth am arian ac a fyddai'n rhoi cryn amlygrwydd i Gymru fel lleoliad ar gyfer cynnal chwaraeon.
- Yn wreiddiol, y bwriad oedd dosbarthu arian Pickets Lock Legacy, sydd ar gael ar gyfer mabolgampau, i bob rhan o'r DU, ond yn y pen draw, rhoddwyd yr arian i Sport England. Felly, roedd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i dderbyn arian ychwanegol dros y 5 mlynedd nesaf ar gyfer athletau. Byddai Cymru'n cael £175 000 y flwyddyn.
- Tynnodd y Gweinidog sylw'r pwyllgor at fanylion diweddaraf sefyllfa'r gyllideb yn yr adroddiad.

5.2 Yn ystod y sesiwn holi ac ateb ar ôl hynny, gwnaed y sylwadau canlynol:

- Y swm o arian y byddai Rali Network Q yn ei ddenu oedd y ffigur o £42 miliwn, ac nid y swm o arian a dalwyd i'w noddi fel y dywedwyd mewn adroddiad ar Radio Cymru.

- Byddai modd i UK Athletics roi arian o gymunrodd Picket Locks i Gymdeithas Athletau Cymru.
- Roedd pêl-droed i ferched yn mynd yn fwyfwy poblogaidd ac felly, byddai datblygu'r agwedd hon ar y gêm yn rhan bwysig o'r Cynllun Gweithredu Pêl-droed.
- Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd awdurdodau lleol bellach yn gwneud unrhyw gyfraniadau i Gyngor Llyfrau Cymru. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi'r arian hwnnw bellach ac wedi cyfrannu swm sylweddol o arian ychwanegol. Byddai'r dull o ariannu bellach yn symlach ac yn fwy agored, gan gymryd llai o amser y staff.
- Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at Dave Collins o Gymdeithas Pêl-droed Cymru yn gofyn iddo ystyried cynyddu'r swm o arian sy'n cael ei fuddsoddi i ddatblygu chwaraewyr ifanc, gan fod ei sefyllfa ariannol bellach yn fwy ffafriol. Y rheswm dros hyn yw fod perfformiad tîm pêl-droed Cymru wedi gwella.
- Roedd y Gymdeithas wedi penderfynu peidio ag apelio yn erbyn dyfarniad FIFA sy'n gwahardd rhai chwaraewyr rhag cymryd rhan mewn gemau rhyngwladol. Ni allai Llywodraeth y Cynulliad gamu i mewn ac apelio ar eu rhan ac nid oedd modd iddi weld y dystiolaeth yr oedd ei hangen.
- Ar hyn o bryd, roedd KPMG wrthi'n gweithio ar achos busnes ar gyfer yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, a byddai swyddogion yn ei weld cyn bo hir. Ym marn y Gweinidog, roedd gwersi i'w dysgu o'r ffordd y dyfarnwyd arian i'r prosiect gan Gomisiwn y Mileniwm.
- Roedd yr Adran Diwydiant a Masnach yn cynnal ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach ac Ardollau. Gan mai'r DU oedd gwlad ail fwyaf y byd o ran allforio gwasanaethau, gallai Llywodraeth y Cynulliad fod yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad a byddai'r ymateb yn cael ei gyhoeddi.

<u>12.00 tan 12.05pm</u>

**<u>Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod diwethaf</u>**

**CC 17-02 (min)**

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf

**<u>Unrhyw Fater Arall</u>**

7.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod yn mynd i roi tystiolaeth i Gomisiwn Richard cyn bo hir a gwahoddodd yr aelodau i awgrymu pynciau y dylai eu codi. Gofynnodd un o'r aelodau a ellid trafod trefniadau'r grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer cyflwyno adroddiadau.